ASTUDIAETH ACHOS

Yr Eagles in Llanuwchllyn, Gwynedd

Canolfan Gymdeithasol: Mae Tafarn Yr Eagles yn cynnig canolfan ddiogel i hybu iechyd a lles trigolion yr ardal

Mae'r Eagles yn Llanuwchllyn, Gwynedd, yn llawer iawn mwy na thafarn yn unig.

Mae'n ganolfan gymdeithasol lle gallai grwpiau cymunedol gynnal eu gweithgareddau fel rhan o'i dull rhagweithiol i geisio trechu ynysigrwydd cymdeithasol a hybu lles y bobl leol.

Mae Llanuwchllyn yn gymuned cefn gwlad anghysbell gyda chefndir amaethyddol cryf a phrinder o wasanaethau cyhoeddus. Bu Yr Eagles wrth galon y gymuned ers erioed a phan benderfynodd y perchnogion, a oedd wedi cynnal y dafarn am dros 20 mlynedd, ymddeol fe ddaeth y gymuned ynghyd i brynu'r eiddo yn 2023 er mwyn gofalu ei fod yn parhau i fod yn adnodd hanfodol i drigolion yr ardal.

Mae'r adeilad cerrig traddodiadol sy'n tarddu o'r 18fed ganrif yn ganolbwynt Llanuwchllyn ac yn ganolfan lle mae croeso cynnes bob amser i drigolion lleol ac ymwelwyr eill dau. Mae'r Eagles yn dafarn a bwyty prysur a phoblogaidd ac at hyn maen nhw'n cynnal siop bentref bach ond sydd yn llawn nwyddau.

Mae'r siop yn gwerthu llefrith ffres, bara, hanfodion dydd i ddydd gan gynnwys papurau boreol, cig ffres o'r cigydd lleol ynghyd â chwrw a gwin.

Pan feddiannodd y pwyllgor o bobl leol y dafarn, roedd yn hollbwysig bod y dafarn yn parhau i fod yn ganolfan i'r rheiny sy'n byw yn lleol ynghyd â gofod ar gyfer ystod o grwpiau cymunedol sy'n darparu ar gyfer pobl o bob oedran a chefndir. Mae eisoes yn ganolfan ar gyfer dau gôr, dau dîm pêl-droed lleol ac amryw grwpiau cymorth amaethyddol.

Darparwyd grant gan Tafarn Yw'r Galon i brynu system PA newydd i'w ddefnyddio yn nigwyddiadau cymdeithasol di-ri y dafarn a bodloni anghenion grwpiau lleol.

Bu'n fodd i'r dafarn estyn ei chefnogaeth i grwpiau lleol a chynnal rhagor o ddigwyddiadau cymunedol i helpu mynd i'r afael â'r problemau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol helaeth yn yr ardal.

Mae noson gwis newydd wedi'i lansio gyda chynlluniau ar gyfer nosweithiau bingo, nosweithiau gwybodaeth am faterion llesiant a chymdeithasol, sioeau ffasiwn, nosweithiau blasu gwin a sgyrsiau ar gyfer grwpiau cymunedol.

“ “Bu cydweithio gyda ‘Tafarn yw’r Galon’ yn fodd inni fuddsoddi mewn cyfarpar sain a fideo angenrheidiol sydd wedi bod yn werthfawr tu hwnt i gefnogi gwaith ein grŵp ieuenctid. Mae hyn wedi annog y bobl ifanc i gymryd rhan yn rheolaidd a bu’n gyfle iddyn nhw ddatblygu eu sgiliau digidol a chael hwyl wrth wneud hynny. Hyn i gyd gan ofalu bod ein canolfan a thafarn gymunedol yn cael defnydd gan yr ystod fwyaf eang o bobl â phosibl.”

Huw Antur, ysgrifennydd y gymdeithas buddiant cymunedol

“ “Bu cydweithio gyda ‘Tafarn yw’r Galon’ yn fodd inni fuddsoddi mewn cyfarpar sain a fideo angenrheidiol sydd wedi bod yn werthfawr tu hwnt i gefnogi gwaith ein grŵp ieuenctid. Mae hyn wedi annog y bobl ifanc i gymryd rhan yn rheolaidd a bu’n gyfle iddyn nhw ddatblygu eu sgiliau digidol a chael hwyl wrth wneud hynny. Hyn i gyd gan ofalu bod ein canolfan a thafarn gymunedol yn cael defnydd gan yr ystod fwyaf eang o bobl â phosibl.”

Cynghorwr rhanbarthol Tafarn yw’r Galon Malcolm Harrison

“Mae’n hanfodol ein bod ni’n cynnig rhywle lle gallai pobl alw draw am sgwrs neu i gymdeithasu, sy’n hollbwysig er mwyn hybu iechyd a lles.”

Tafarnwraig Zoe Smith